

Cyngor Cymuned Bontnewydd
COFNODION CYFARFOD MISOL
Gorffennaf 4^{ydd} 2013; 7.30 o'r gloch, Y Ganolfan, Bontnewydd

PRESENNOL :

Mr Huw Williams, Pennaeth Ymgynghoriaeth Gwynedd; Matthew Tapping, Heddwes Cymunedol; Cynghorydd Erddyn Davies yn cadeirio'r cyfarfod; Cynghorwyr Eddie Hughes, Ifor Williams, Rhys Pugh, Gwyneth Thomas, Geraint Jones a Dafydd Iwan. Mr Bryn Hughes, Clerc

CYFLWYNIAD GAN MR HUW WILLIAMS, Pennaeth Ymgynghoriaeth Gwynedd, ynghylch y cynllun Rheoli traethlin 2 a'i effaith ar ardal Bontnewydd a Llanfaglan

Cafwyd cyflwyniad gan Mr Williams ar effaith newid hinsawdd ar arfordir Gwynedd a chodiad yn lefelau'r môr dros y ganrif nesaf. Rhagwelir bydd y lefel yn codi tua 1 medr dros y ganrif. Mae gan y Cyngor nifer o gynlluniau hir-dymor er mwyn diogelu cymunedau sydd ar yr arfordir, ac yn ardal Bontnewydd, mae'r effaith am gael ei deimlo fwyaf yn y Foryd. Cam cyntaf y cynllun yw ceisio dal llinell y môr yn ôl, a dyma fydd y camau bydd rhaid eu mabwysiadu hyd at 2025. Mi fydd angen cydweithrediad rhwng Cyngor Gwynedd a'r Cyngor Cymuned er mwyn cytuno ar y camau priodol, yn arbennig o Ffordd yr Aber i Afon Carrog. Mae ystyriaethau eraill yn ogystal sef effeithiau ar yr economi leol, twristiaeth ac amaethyddiaeth, a.y.y.b. Fe ddiolchodd y Cadeirydd Erddyn Davies i Mr Williams am ei gyflwyniad a gadawodd Mr Williams y cyfarfod.

PROBLEMAU PARCIO LÔN GROES

Mae'r clerch i gysylltu a'r ymddiriedolwyr a chanfod a oes posibil iddynt werthu darn o dir er mwyn i'r Cyngor Cymuned edrych ar ddarparu llecynnau parcio ychwanegol. Mae Dafydd Wyn Williams o Gyngor Gwynedd am baratoi cynlluniau.

GOR-YRRU YN LLANFAGLAN : Problem hirdymor sydd angen sylw brys yn dilyn damwain. Disgwylir i'r Heddwes Cymunedol Matthew Tapping fod yn bresennol.

Cafwyd adroddiad gan Cynghorydd Ifor Williams a'r Heddwes Cymunedol Matthew Tapping ynghylch y digwyddiad lle fu cerbyd daro nifer o gerbydau oedd wedi parcio ger Tai Magdalen. Fe gytunwyd fod angen rhwybeth sydd am arafu cerbydau yn yr ardal ac nad yw dangos arwydd yn ddigonol bellach. Cytunwyd yn ogystal y fod angen cael cyfarfod buan rhwng yr Heddlu, y Cyngor Cymuned a'r Cyngor Sir er mwyn ceisio symud ymlaen gyda ateb i'r broblem hirdymor yma.

PARC Y PLWYF, LLANFAGLAN

Adroddodd y clerch mai dim ond 1 contractwr allan o'r 4 gafodd ei wahodd i ddatgan diddordeb yn y prosiect a wnaed hynny, sef North Wales Fencing, a mi fydd y clerch yn eu gwahodd i rhoi pris. Mae'r contractwr wedi cyfarfod ar y safle hefo'r clerch a Cynghorydd Ifor Williams yn barod.

SEDD WAG

Cytunwyd i hysbysu fod yna sedd wag ym Montnewydd yn dilyn ymddiswyddiad Marian Roberts. Mae'r Clerch i osod hysbysiad yn yr hysbysfwrdd.

DATGANIAD Y BANC : Balans hyd at 28 Mai 2013 yw £10607.97

Derbyniwyd y wybodaeth uchod. Yn ogystal cafwyd adroddiad gan Cynghorydd Dafydd Iwan yn rhoi diweddariad ar y cynllun i ddatblygu'r Ganolfan. Mae angen cwblhau gwelliannau sydd yn angenrheidiol i'r Cylch Meithrin. Mi fydd ceisiadau am grantiau yn cael ei wneud. Cost y gwelliannau elfennol yw oddeutu £24,000

CYFLOG A CHOSTAU CLERC : Mis Mehefin 2013

CYFLOG - £ 307.31 **COSTAU a THREULIAU** -£ 130.99. Cytunwyd i dalu'r cyflog a chostau

Ffordd Rhosbach at Cae Hobson Mae'r ffosydd rhwng ochr y ffordd yma yn ddyfn iawn, ac wedi gwaethygu yn dilyn y llifogydd. Mae angen sylw brys. Gofynnwyd i'r clerch lythyru â Mr Meirion Williams.

DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF : MEDI 5ed 2013, am 7 o'r gloch.